OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 3341 (Cy.292) (C.152)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - 16 Rhagfyr 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 262(2) a (3) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 2009" ("*the 2009 Act*") yw Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.

Y diwrnod penodedig

2. Daw adran 205 o Ddeddf 2009 ac Atodlen 14 iddi i rym ar 12 Ionawr 2010 o ran Cymru.

Leighton Andrews
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

16 Rhagfyr 2009

(**1**) 2009 p.22.